



TAG UWCH

1020U60-1



S23-1020U60-1

DYDD IAU, 15 MEHEFIN 2023 – BORE
THURSDAY, 15 JUNE 2023 – MORNING

CYMRAEG: AIL IAITH – U2 uned 6
DEFNYDDIO IAITH A'R STORI FER
(Papur Ysgrifenedig)

2 awr
2 hours

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

ADDITIONAL MATERIALS

A WJEC pink 16-page answer booklet.

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du. Peidiwch â defnyddio beiro gel na hylif cywiro.

Atebwch **bob** cwestiwn yn Adran A ac Adran B.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb sy'n cael ei roi i chi.

Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.

INSTRUCTIONS TO CANDIDATES

Use black ink or black ball-point pen. Do not use gel pen or correction fluid.

*Answer **all** questions in Section A and Section B.*

Write your answers in the separate answer booklet provided.

The marking will take into account the quality of written communication used in your answers.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Cofiwch mai papur synoptig yw hwn ac felly bydd yn profi eich dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng gwahanol elfennau o'r pwnc.

Ni chaniateir defnyddio copïau o'r straeon byrion na geiriaduron yn yr arholiad hwn.

INFORMATION FOR CANDIDATES

The number of marks allocated for each question or part-question is given in brackets.

You are reminded that this paper is synoptic and so will test understanding of the connections between the different elements of the subject.

*Copies of the short stories and dictionaries are **not** permitted.*

ADRAN A

Defnyddio laith

1. (i) Mae eich athro dosbarth wedi dangos y poster isod am ailgylchu i chi. Ysgrifennwch **erthygl** i gylchgrawn yr ysgol yn tynnu sylw at bwysigrwydd ailgylchu a soniwch am y ffordd rydych chi a'ch teulu'n ailgylchu. [20]
(Tua **150** o eiriau)

Wrth ysgrifennu'r erthygl dylech chi:

- ymateb i'r cwestiwn 'Pam ailgylchu?' (er enghraifft llygredd, diogelu fforestydd glaw)
- sôn am y problemau gyda sbwriel a'r niwed i'r amgylchedd
- mynegi eich barn am bobl sy'n gwrthod ailgylchu
- disgrifio'r ffordd mae eich teulu chi'n mynd ati i ailgylchu
- cyfeirio at unrhywbeth arall dylech chi wneud.



Gwneud ein rhan ...

Gall pob un ohonon ni wneud ein rhan dros yr amgylchedd trwy sicrhau ein bod ni'n defnyddio'r biniau, y bocsys a'r bagiau ailgylchu mae'r cyngor yn eu dosbarthu i ni.




Bin mawr gwyrdd ar gyfer gwastraff gardd y gellir ei gompostio.



Bin mawr du ar gyfer gwastraff y cartref na ellir ei ailgylchu na'i gompostio.



Bocs gwyrdd ar gyfer tuniau a phlastig.



Bocs du ar gyfer gwydr.



Biniau bach llwyd ar gyfer gwastraff bwyd.



Sach blastig las ar gyfer papur a chardfwrdd.

- (ii) Rydych chi'n gweithio'n rhan-amser yn y Ganolfan Hamdden yn y dref. Mae'r rheolwr eisiau rhoi'r amserlen isod yn y cylchlythyr nesaf. Ysgrifennwch ffurf gywir y gair neu'r ffigwr sydd wedi'u rhifo ac yn y cromfachau. [10]

Amserlen y Ganolfan – Gwyliau'r haf

Am ¹(10:00) o'r gloch bob bore bydd sesiwn cadw'n heini i ferched dan bymtheg oed. Wedyn am ²(11:30) bydd cyfle i'r ³(dyn) brofi eu ffitrwydd ar y beiciau. Bob pnawn ⁴(bydd) ni'n cynnal sesiwn iechyd a ffitrwydd i'r teulu cyfan a bydd cyfle i bob un ⁵(o) chi ddysgu rhywbeth newydd. ⁶(Cael) ni adborth da iawn i'r dosbarthiadau hyn llynedd achos ⁷(roedd) nhw'n rhoi cyfle i'r hen a'r ifanc gydweithio. Ond, yn anffodus, am resymau iechyd a diogelwch, fydd dim modd i blant dan ⁸(3) oed fynychu'r ⁹(sesiwn) hyn. Os hoffech chi ¹⁰(cymryd) rhan cysylltwch â'r Ganolfan.

ADRAN B**Y Stori Fer**

2. (i) Yn y darn ar dudalen 5 o'r stori fer 'Pwy Fyth a Fyddai'n Fetel' gan Mihangel Morgan, mae gan Non bŵer dros Keflusker X. Dychmygwch mai chi yw Keflusker X. **Ysgrifennwch tua 100 o eiriau** yn ymateb i'r ffordd gas mae Non yn siarad â chi ac hefyd i'r ffordd amharchus mae hi'n eich trin chi. [15]

Gallech chi gyfeirio at:

- diffyg parch a diffyg cwrteisi Non
- agwedd anniolchgar Non wrth iddi gwyno am bopeth
- diffyg amynedd Non
- hunanoldeb Non
- y pŵer sydd ganddi drosoch
- y ffordd rydych chi'n ymateb i hyn
- yr hyn hoffech chi ddweud wrthi er mwyn dial arni.

- (ii) Yn y darn ar dudalen 5 mae'r awdur yn defnyddio'r technegau canlynol sy'n ychwanegu at lwyddiant y darn:

geiriau negyddol
ebychnodau
brawddegau hir a brawddegau byr

Rhowch enghreifftiau o'r technegau hyn gan ddweud sut maen nhw'n helpu'r awdur i **gyfleu'r ffordd gas ac amharchus mae Non yn trin Keflusker X.** (Ysgrifennwch tua 100 o eiriau) [15]

- (iii) Prif thema'r darn ar dudalen 5 yw **Perthynas**. Mae'n cyfleu'r ffordd y mae cymeriad hunanol fel Non yn gallu **cael effaith negyddol ar berthynas**. Manylwch ar y **thema** trwy gyfeirio at unrhyw lenyddiaeth a ddarllenwyd neu lonyddiaeth a wylwyd gennych sy'n ymdrin â'r un thema **a'u cysylltu gyda'r darn ar dudalen 5.** (Ysgrifennwch tua 300 o eiriau Cwestiwn synoptig) [40]

- O, diawl! ebychodd Non, mae llaeth yn hwn! Du ddwedais i, coffi du!
Plygodd Non dros yr hambwrdd i bwysu un o'r botymau-cywiro ar gefn *Keflusker X*.
 - Cywirwyd! meddai'r peiriant.
 - Mae'n rhy hwyr nawr, meddai Non yn bwdlyd, rhaid imi yfed hwn. Ond paid ti â gwneud yr un peth yfory.
Cymerodd Non ddracht o'r coffi.
 - Ych-a-fi, mae'n rhy felys ac yn llugoer hefyd!
Roedd hi'n dechrau difaru prynu peiriant mor hen.
- ...
- Dangos y newyddion, wnei di, *Keflusker X*?
Ymddangosodd sgrîn yng nghanol bola'r peiriant.
 - Y mae'r Llywodraeth yn trafod dulliau newydd o ddelio â'r henoed, meddai'r ferch a oedd yn darllen y newyddion. Bwriedir saethu'r rhai heb bensiynau a'r digartref a chanolbwyntio ar ...
 - Nage, nage, nage! Nid y newyddion cenedlaethol, y newyddion lleol!
- ...
- Ar ôl noson o derfysgoedd yn Abertawe neithiwr y mae'r heddlu wedi lladd tuag ugain o ...
 - Tro hwnna off, *Keflusker X*, wnei di? Yr un hen beth o hyd ac o hyd. Gad imi weld y sianel grefyddol i gael tipyn o awyr iach. Dydw i ddim yn bwriadu gwneud dim gwaith heddiw.
'Niwrnod bant yw hi ac rwy wedi gweithio'n galed drwy'r wythnos, mae 'da fi hawl i ymlacio a gorffwys tipyn.

DIWEDD Y PAPUR

TUDALEN WAG

TUDALEN WAG